CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'u gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

Y Cynghorydd: **John Pritchard** **Plaid:** **Annibynnol Wrecsam**

Ward: **Marchwiail**

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau
Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol:

Cynllunio a Pholisi Cynllunio
Pwyllgor Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd
Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol
Y Cyngor
Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Diogelu
Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes

Rwy'n aelod o'r pwyllgorau allanol canlynol:

Cyngor Cymuned Marchwiail
Cyngor Cymuned Sesswick
Llywodraethwr, Ysgol Deiniol Marchwiail
Rwy'n mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned Eyton ac Erbistog
Mynd i gyfarfodydd Grŵp Cymunedol De Wrecsam pan fod Heddlu Gogledd Cymru yn eu trefnu

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth

1. Cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac ymweliadau safle gyda Swyddogion Cymorth Cymuned yr Heddlu ym mhob ardal o'r ward, a mynegi pryderon y trigolion yn ymwneud â throsedd ac anrhefn.
2. Ymweliadau safle gyda swyddogion rheoli'r Priffyrdd ynglŷn â chyflwr y Priffyrdd yn y ward a mynegi pryderon y trigolion. Trafodaethau parhaus ynglŷn ag adolygiad cyfyngiadau cyflymder yn y ward.
3. Ymweliadau safle gyda Swyddogion Tai ynglŷn â'r Cynllun Amgylcheddol.
4. Delio ag adroddiadau, cwynion ynglŷn â materion sy'n berthnasol i'r Cyngor gan drigolion a thenantiaid yn ddyddiol.
5. Delio ag anawsterau parhaus ar ôl cwblhau ffordd gyswllt Wrecsam.
6. Cefnogi elusennau lleol
7. Cynorthwyo ar ddiwrnod parti Nadolig Pensiynwyr Marchwiail
8. Cefnogi ein hysgol leol yn fy swydd fel llywodraethwr.
9. Gweithio gyda'r Cyngor Cymuned i achub Gwarchodfa Natur yn y pentref.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

1. Trefnu grwpiau lleol, a sefydliadau i gymryd rhan yn ein diwrnod amgylcheddol. Ar y diwrnod roedd Sgowtiaid a Geidiaid lleol, Cadwch Gymru'n Daclus, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Strydwedd Wrecsam, Adran Tai Wrecsam, Trigolion Lleol a'n Cyngor Cymuned yn bresennol. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a chasglwyd dros 40 bag sbwriel.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y Cyngor ynghyd â gweithdai ynglŷn â nifer o destunau yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

1. Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol lle bo modd
2. Mynychu cyfarfodydd Grŵp wedi'u trefnu gan Grŵp Annibynnol Wrecsam.
3. Mynd i gyfarfod cyhoeddus gyda Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru a thrigolion oherwydd problem yn ymwneud ag unigolyn yn cynnau tanau'n fwriadol.
4. Mynychu cyfarfodydd wedi'u trefnu gan W.R.A.P.S sef Trigolion Wrecsam yn erbyn Cynllun Pŵer, ac wedi nodi a chefnogi eu pryderon.
5. Cefnogi'r gwelliannau bwriedig i Neuadd y Pentref Marchwiail